

Polisi Rheoli Glaswelltiroedd Amwynderol

Rhagarweiniad:

Mae'r Brifysgol yn rheoli ardaloedd o laswelltir amwynderol i hwyluso gweithgareddau hamdden, gwella estheteg ei hadeiladau ac i beri bod y campysau'n cydweddu â'r tirweddau cyfagos a'r amgylcheddau lleol. Yn ogystal, mae'r ardaloedd o laswelltir amwynderol yn cynnig cynefinoedd i amrywiaeth o fflora a ffawna yn y dirwedd drefol a lled-drefol ac yn cefnogi bioamrywiaeth, yn cadw carbon ac yn cynnal strwythur ac iechyd y pridd. Felly, mae'n rhaid i reolaeth y glaswelltiroedd amwynderol gloriannu'r gwasanaethau ecosystemau y gallant eu darparu â disgwyliadau a dymuniadau'r defnyddwyr eraill oll. Mae'r polisi'n disgrifio'r egwyddorion a'r canllawiau sy'n ymwneud â rheoli glaswelltiroedd amwynderol i wneud yn fawr o'u gwerth ecolegol ac esthetig ac mae'n amlygu'r cyfleoedd i drawsnewid ardaloedd neilltuol o laswelltir amwynderol yn gynefinoedd cyfoethocach a all gynyddu cyfoeth a helaethrwydd y rhywogaethau.

Datganiad Polisi:

Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n cloriannu anghenion y Brifysgol, bioamrywiaeth, defnydd hamdden, a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Amcanion Polisi o ran Rheoli a Gwella'r Glaswelltir Amwynderol Presennol:

1. Hyrwyddo Bioamrywiaeth Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid hyrwyddo bioamrywiaeth trwy greu a chynnal cynefinoedd i amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid.
2. Hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol: Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol trwy leihau ôl troed carbon y gwaith cynnal a chadw blynyddol, yn enwedig yr allyriadau a briodolir i danwydd, trydan a chemegau a lleihau unrhyw effeithiau negyddol eraill ar yr amgylchedd. Rhaid i'r drefn reoli warchod y pridd a'r dŵr hefyd trwy hyrwyddo arferion defnydd tir cynaliadwy.
3. Cynnal diogelwch: Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid sicrhau eu bod yn ddiogel i'r cyhoedd eu defnyddio trwy reoli peryglon posibl megis tir anwastad, rhywogaethau planhigion peryglus, a risgiau eraill posibl.
4. Gwella estheteg: Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid gwella apêl esthetig y dirwedd, a'i gwneud yn lle deniadol i bobl ymweld a mwynhau. Rhaid iddo wella'r dreftadaeth ddiwylliannol hefyd a chynnig cyfleoedd i hamddena yn yr awyr agored.
5. Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd: Hyrwyddo pwysigrwydd glaswelltiroedd amwynderol a hysbysu ynghylch newidiadau i reolaeth y cynefinoedd er lles bywyd gwyllt.

Egwyddorion Allweddol Rheoli Glaswelltir Amwynderol:

1. Rheoli cynefinoedd: Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid ystyried creu a chynnal cynefinoedd i amrywiaeth o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid. Mae modd cyflawni hynny trwy fesurau amrywiol, megis plannu blodau gwyllt brodorol, llwyni a choed a gosod llochesi a chartrefi i fywyd gwyllt.
2. Cynnal a chadw a thorri gwair: Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid sicrhau bod y trefniadau cynnal a chadw a thorri gwair yn cael eu cynllunio a'u gweithredu'n ofalus i gloriannu anghenion bioamrywiaeth a defnydd hamdden. Gall hynny gynnwys rheoli'r amlder a'r amseriad o ran torri gwair a gwaith cynnal a chadw arall i gynnal amrywiaeth o uchderau llystyfiant lle gall gwahanol gymunedau o blanhigion, pryfed a bywyd gwyllt ymsefydlu a ffynnu. Gallai hynny hefyd gynnwys gadael rhai ardaloedd heb eu torri drwy'r gwanwyn a'r haf yn gynefin i rywogaethau ychwanegol.
3. Defnyddio chwynladdwr a chemegau: Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid lleihau'r defnydd o chwynladdwyr a chemegau eraill a allai beri effeithiau negyddol i'r amgylchedd. Lle bo angen cemegau, rhaid eu defnyddio mewn ffordd sy'n lleihau'r niwed i rywogaethau nad ydynt yn darged a'r amgylchedd ehangach.
4. Rheoli peryglon: Wrth reoli glaswelltiroedd amwynderol rhaid nodi a rheoli peryglon posib i ddiogelwch y cyhoedd, megis tir anwastad a chodymau, rhywogaethau planhigion peryglus, a risgiau posibl eraill.
5. Rheoli mynediad: Wrth reoli glaswelltir amwynderol rhaid sicrhau bod mynediad i'r safle'n cael ei reoli mewn modd sy'n lleihau'r niwed i'r amgylchedd ac yn sicrhau'r diogelwch mwyaf posibl i ymwelwyr.

Polisi Rheoli Glaswelltir Amwynderol –

Trosolwg -

Gall glaswelltiroedd amwynderol ddarparu cynefinoedd i rai rhywogaethau o blanhigion, pryfed ac anifeiliaid, yn enwedig y rhai sydd wedi addasu i amgylcheddau glaswelltog agored. Mae'r Brifysgol yn rheoli sawl math o laswelltir amwynderol ledled yr ystad, ac mae pob un yn gartref i gymysgedd o rywogaethau unigryw.

Torri gwair yw'r prif ddull o hyd ar gyfer rheoli llystyfiant glaswelltiroedd ar ystad y Brifysgol. Fodd bynnag, mae lleihau amlder torri'r gwair mewn rhai ardaloedd i unwaith neu ddwywaith y flwyddyn yn fodd i rai rhywogaethau o blanhigion flodeuo a hadu, a chynnig ffynhonnell fwyd i bryfed a bywyd gwyllt arall. Trwy reoli amseriad torri'r gwair hefyd, gall Tîm Tiroedd a Thirweddu'r Brifysgol a staff Gardd Fotaneg Treborth ddarparu amrywiaeth o uchderau llystyfiant a microgynefinoedd, a chynnal gwahanol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid trwy gydol y flwyddyn.

Gellir hefyd ystyried casglu'r glaswellt sydd wedi'i dorri, neu'i gribinio, mewn ardaloedd addas o laswelltir amwynderol, gan fod yr dull hwnnw o reoli'n atal llystyfiant marw rhag cronni, a all fygu planhigion bregus. Mae casglu glaswellt sydd wedi'i dorri hefyd yn gadael tir mwy agored i alluogi hadau i dyfu, mae'n lleihau ffrwythlondeb y pridd ac mae'n arafu tyfiant gwair bras a all drechu perlyisiau a blodau gwyllt.

Y Cynllun -

Nod y Cynllun Rheoli Glaswelltiroedd Amwynderol yw gwella ansawdd glaswelltiroedd amwynderol a chynyddu bioamrywiaeth ar ystad y Brifysgol, yn ogystal â chynnal gwerth amwynderol rhai ardaloedd, gan gynnwys lawntiau ffurfiol, er mwynhad y myfyrwyr, y staff a'r cyhoedd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys yr elfennau a'r camau gweithredu canlynol:

1. Nodi'r mathau cyfredol o laswelltir

- a. Nodi'r gwahanol fathau o laswelltiroedd ar ystad y Brifysgol, gan gynnwys dolydd, lawntiau, a mannau hamdden.
 - Caiff ardaloedd glaswelltir amwynderol eu harolygu a'u dosbarthu trwy ddefnyddio Arolwg Cynefin Cam 1 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC) neu fethodoleg arall debyg.
 - Gellir defnyddio Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC) Arolwg Cynefin Cam 2 mewn ardaloedd targed i ddarparu gwybodaeth fanylach ynglŷn â chymysgedd a helaethrwydd y rhywogaethau.
 - Sicrhau cyllideb ddigonol i ariannu contractwyr ecolegwyr allanol ar gyfer yr arolygon uchod.
 - Bydd staff a myfyrwyr cymwys yn cynnal arolygon hefyd
- b. Creu map o laswelltiroedd amwynderol y campws
 - Defnyddio ArcGIS Pro neu gyffelyb

2. Diffinio'r arferion cyfredol sy'n ymwneud â rheoli glaswelltir amwynderol

- a. Datblygu **cynlluniau rheoli penodol** i bob math o laswelltir yn seiliedig ar eu nodweddion a'u pwrpas
 - Creu cynllun ar gyfer pob safle glaswelltir/amwynderol
- b. Penderfynu **pa mor aml mae angen torri'r gwair** i gynnal uchder dymunol y glaswellt a rheoli rhywogaethau ymledol (e.e. toriad blynyddol, 2-3 toriad y tymor, unwaith yn yr hydref, ac yn y blaen.)
 - Creu matrices ar gyfer torri gwair
 - Tiroedd a Thirweddau a Gardd Fotaneg Treborth i gydweithio a rhannu arbenigedd a gwybodaeth am dechnegau torri gwair lle bo'n briodol
- c. Sicrhau bod **monitro** rheolaidd ar y glaswelltiroedd am newidiadau yng nghymysgedd y rhywogaethau ac ansawdd y cynefinoedd
 - Creu matrices ar gyfer monitro
 - Cysylltu â chymdeithasau a chlybiau'r myfyrwyr am gefnogaeth i fonitro

- d. **Rheoli maetholion** mewn ardaloedd sydd newydd eu plannu ger glaswelltiroedd amwynderol (mwydo a rhoi'r compost a gynhyrchir yn fewnol ar llwyni a choed sydd newydd eu plannu)
 - Rhywogaethau ac ardaloedd a ddynodir ar gyfer plannu i'w cynnwys ym mhob cynllun rheoli glaswelltir amwynderol
- e. **Rheoli rhywogaethau ymledol** - Gall rhywogaethau ymledol a chwyn gwenwynig drechu planhigion brodorol a lleihau bioamrywiaeth y glaswelltiroedd. O reoli rhywogaethau ymledol trwy gyfuniad o'u symud yn ffisegol a thrwy blannu rhywogaethau brodorol eraill i gystadlu am yr un cynefin, gallwn helpu cynnal neu adfer bioamrywiaeth mewn glaswelltiroedd amwynderol.
 - Caiff unrhyw rywogaethau ymledol a nodir eu cynnwys yng nghynllun rheoli pob safle glaswelltir amwynderol, yn ogystal â rhaglen i reoli neu ddileu'r rhywogaethau ymledol.

3. Nodi arferion rheoli newydd i wella bioamrywiaeth mewn glaswelltiroedd amwynderol -

Mae'n bosib trawsnewid glaswelltiroedd amwynderol yn gynefinoedd cyfoethocach i fywyd gwyllt trwy roi nifer o fesurau ar waith sy'n anelu at greu cynefinoedd amrywiol, cynyddu cysylltiadau rhwng cynefinoedd, a lleihau'r aflonyddwch:

- a. **Annog datblygu strwythur amrywiol i laswelltiroedd** - Gall glaswelltiroedd fod yn amrywiol o ran eu strwythur, gan gynnwys glaswelltiroedd byr, glaswellt tal, a chlytiau o dir moel, sy'n cynnig amrywiaeth o gynefinoedd i wahanol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid.
 - Nodi ardaloedd yng nghynllun pob glaswelltir lle gellid sefydlu strwythur neu'i wella
- b. **Creu microgynefinoedd penodol mewn glaswelltiroedd amwynderol neu'n gyfagos** - Gall plannu gwrychoedd, llwyni a choed a chreu ardaloedd corsio mewn glaswelltiroedd amwynderol neu'n gyfagos gynnig cynefinoedd ychwanegol.
 - Nodi ardaloedd yng nghynllun pob glaswelltir lle gellid sefydlu neu wella microgynefinoedd
- c. **Lleihau aflonyddwch gweithgareddau hamdden** - Gall lleihau effeithiau gweithgareddau fel mynd â'r ci am dro neu feicio helpu cynnal bioamrywiaeth glaswelltiroedd amwynderol. Mae modd cyflawni hynny trwy ddynodi llwybrau, codi ffensys ac arwyddion.
 - Diffinio a nodi lle gellir lleihau aflonyddwch
- d. **Dynodi ardaloedd newydd o laswelltir ddechrau'r gwanwyn a gadael iddynt dyfu drwy'r haf**
 - Cwmpasu meysydd newydd yn y cynlluniau rheoli safleoedd unigol
- e. **Rheoli'r glaswelltiroedd cyfredol i gynnwys cynefinoedd ymylol** - cyflwyno rhywogaethau brodorol addas ar gyrion ardaloedd o laswelltir a rheoli'r glaswelltir mewn modd cydnaws i hybu glastiroedd ymylol amrywiol.
 - Cwmpasu ardaloedd i'w plannu yn y cynlluniau rheoli safleoedd unigol

4. Creu cynefinoedd newydd er lles bywyd gwyllt

a. Creu cynefinoedd a dolydd llawn blodau gwyllt

Mewn llawer o laswelltiroedd mae nifer fach o rywogaethau o laswellt neu blanhigion eraill yn tra-arglwyddiaethu, sy'n gallu arwain at ddirywiad mewn bioamrywiaeth. Hyrwyddo sefydlu cynefinoedd llawn blodau gwyllt er mwyn cynyddu amrywiaeth y planhigion a darparu cynefinoedd pwysig i bryfed peillio a thrychfilod eraill.

Gall hau hadau blodau gwyllt yn flynyddol gynyddu amrywiaeth rhywogaethau'r planhigion mewn glaswelltiroedd amwynderol. Mae blodau gwyllt yn ffynhonnell fwyd ac yn gynefinoedd i bryfed peillio, a gallant hefyd wella apêl weledol yr ecosystemau. Mae modd hau blodau gwyllt mewn ardaloedd dynodedig neu mewn cymysgedd â'r gweiriau.

Mae hefyd yn bosib rheoli glaswelltir a gafodd ei wella i gynyddu amrywiaeth y rhywogaethau trwy greithio a thynnu tywyrch i leihau ffrwythlondeb (sy'n hanfodol i greu dolydd). Yna gellir hadu'r tir hwnnw gyda glasweirwellt.

- Nodi'r ardaloedd sydd wedi'u targedu i greu dolydd ar fap
- Defnyddio glasweirwellt llawn rhywogaethau o ddolydd lluosflwydd Gardd Fotaneg Treborth-Ile bo'n briodol

b. **Cynnig cyfleoedd i nythu a chysgodi:** Mae llawer o rywogaethau'r glaswelltir, fel adar a mamaliaid bach, angen cyfleoedd i nythu a chysgodi. Gall blychau nythu, pentyrtau o goed, waliau cerrig sychion a nodweddion cynefinoedd eraill helpu cynyddu bioamrywiaeth mewn glaswelltiroedd amwynderol.

- Nodi ar fap lle gellid gosod llochesi a chartrefi

c. **Hyrwyddo cysylltedd:** Gall darnio cynefinoedd glaswelltir gyfyngu ar symudiadau rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid a lleihau bioamrywiaeth. Gall hyrwyddo cysylltedd trwy greu coridorau neu bocedi o gynefinoedd addas helpu cynnal neu adfer bioamrywiaeth mewn glaswelltiroedd amwynderol.

- Nodi ar fap ble a sut mae gwella cysylltedd
- Cydgysylltu â chymdeithasau a chlybiau myfyrwyr perthnasol ar gyfer safleoedd blaenoriaeth i greu coridorau

5. Cyfleu swyddogaeth a phwysigrwydd rheoli glaswelltir amwynderol a chynnwys y gymuned ehangach

a. Ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i nodi eu hanghenion a'u dymuniadau ar gyfer glaswelltiroedd amwynderol

- Nodi'r rhanddeiliaid a chysylltu â nhw

b. Annog cyfranogiad yn rheolaeth y glaswelltiroedd, megis digwyddiadau cymunedol neu gynlluniau plannu gwirfoddol

- Cynllunio digwyddiadau a hysbysebu digwyddiadau

c. Gall gwirfoddolwyr helpu gyda chreu cynefinoedd, rheoli rhywogaethau ymledol, a monitro rhywogaethau'r planhigion a'r anifeiliaid.

- Recriwtio a threfnu gwirfoddolwyr
- d. Addysgu cymuned y Brifysgol ynglŷn â phwysigrwydd glaswelltiroedd i fioamrywiaeth a hamdden
- Trefnu digwyddiadau, cyhoeddiadau a chyfathrebiadau
- e. Llunio cynllun dehongli i arwyddion – hysbysfyrddau, arwyddion dros dro ynglŷn â thorri gwair/peillio i sicrhau bod cyfathrebu cadarnhaol gyda'r gymuned.

6. Monitro a Gwerthuso

- a. Cynnal **asesiadau bioamrywiaeth** - nodi'r rhywogaethau sy'n bresennol yn y glaswelltir ar hyn o bryd ac amlygu ardaloedd o werth ecolegol uchel. Mae'n bosib defnyddio'r wybodaeth i arwain penderfyniadau rheoli a nodi meysydd lle bo angen camau gweithredu penodol.
- Trefnu arolygon bioamrywiaeth rheolaidd (gwaelodlin a thymhorol)
- b. **Monitro** rheolaidd ar iechyd ac ansawdd glaswelltiroedd amwynderol sydd wedi'u gwella gan ddefnyddio rhywogaethau dangosol, priodweddau'r pridd a dulliau eraill.
- Datblygu dangosyddion a threfn samplu addas
- c. **Gwerthuso** llwyddiant yr arferion rheoli o ran cyflawni amcanion y polisi.
- Trefnu dull adolygu a gwerthuso blynyddol yr arferion rheoli
- d. **Addasu** arferion rheoli'n seiliedig ar ddata monitro a gwerthuso
- Newid yr arferion rheoli ar ôl gwerthuso'r arferion rheoli
 - Diweddarau cynlluniau rheoli'r safleoedd unigol.

7. Adnoddau

- a. Sicrhau bod adnoddau digonol megis cyllid, offer a hyfforddiant i'r staff ar gael i reoli'r glaswelltiroedd yn effeithiol.
- Archwilio'r grantiau sydd ar gael a gwerthuso'r cyfleoedd ariannu
 - Adolygu'r gofynion ariannu o ran yr offer a hyfforddi'r staff
- b. Ystyried ffynonellau cyllid eraill megis nawdd, rhoddion a chydweithrediadau.
- Llunio rhestr o ffynonellau ariannu
 - Cyflwyno ceisiadau am y cyllid presennol a pharatoi cynigion ar gyfer cyfleoedd ariannu yn y dyfodol

(Diwedd y ddogfen)

Cymeradwywyd gan:
Dyddiad: 18 Ebrill, 2024



Wayne Jones, Pennaeth Rheoli Ystadau

Dyddiad adolygu: Ebrill 2026